**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1303
Ein cyf/Our ref JMSS/00139/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Mawrth 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mawrth 2023 ynglŷn â Deiseb P-06-1303 - *Creu, ariannu a chynnal digon o leoedd meithrin a gofal plant fforddiadwy i bob rhiant sy'n gweithio*. Roeddech yn gofyn ar ran y Pwyllgor pa asesiad a wnaed o'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant diweddaraf, a'r hyn y maent yn ei ddatgelu am sefyllfa'r ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru.

Mae adolygiad annibynnol i asesu Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022 wedi'i gomisiynu ac yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Nod y prosiect yw adolygu Asesiadau 2022 a gwblhawyd gan bob un o'r 22 Awdurdod Lleol a'r data sy'n sail iddynt. Bydd hyn yn cynnwys ystyried hyd a lled yr Asesiadau yn ogystal ag unrhyw fylchau yng ngoleuni'r canllawiau statudol.

Bydd yr adolygiad yn rhoi adborth i Lywodraeth Cymru ynghylch sut mae pob awdurdod lleol unigol wedi cyflawni'i ddyletswyddau statudol o ran Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant 2022. Bydd hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau thematig pwysig yr adolygiad o'r Asesiadau, a fydd yn help i lywio ein dealltwriaeth ynghylch y ddarpariaeth gofal plant ar draws gwahanol rannau o Gymru. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r crynodeb yn ddiweddarach yn y gwanwyn.

Yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog
Gwasanaethau Cymdeithasol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.